Ein Treftadaeth
Our Heritage

# Carn Fadryn

O gerdded i gopa Carn Fadryn, cewch eich gwobrwyo gan olygfeydd godidog o Benrhyn Llŷn, Bae Ceredigion a mynyddoedd Eryri. Mae'r mynydd yn frith o weddillion anheddau'r Oes Haearn o fryngaer helaeth wedi'i amgylchynu gan wal allanol. Mae gweddillion un o gestyll carreg hynaf Cymru'r oesoedd canol ar y copa. Nododd croniclydd y 12fed ganrif, Gerallt Gymro fod "dau gastell o garreg newydd eu codi: enw un yw Deudraith...y llall Carn Madryn". Adeiladwyd y ddau yn y cyfnod terfysglyd a ddilynodd marwolaeth Owain Gwynedd ym 1170.

**4 milltir o bentref Tudweiliog ar y B4417**

If you walk to the summit of Carn Fadryn you will be rewarded with spectacular views over the Llŷn Peninsula, Cardigan Bay, and the mountains of Snowdonia. The mountain is littered with the remains of Iron Age dwellings from a vast hillfort surrounded by a perimeter wall. At the summit are the remains of one of the oldest stone castles of medieval Wales. The 12th century chronicler Gerald of Wales noted that "two stone castles have newly been erected: one called Deudraith ... the other Carn Madryn". Both were built in the tumultuous period that followed the death of Owain Gwynedd in 1170.

**Located 4 miles from village of Tudweiliog on the B4417**

Gwynedd

